

LICC/CFW

Aelod o'r Tîm

Pecyn Recriwtio

www.cfw.wales

@CFWCymru

Pwy ydyn ni?

Mae **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales** yn gydweithfa amrywiol a dwyieithog sy'n cryfhau llais llawryddion sy'n gweithio yn y maes celfyddydol yng Nghymru.

Rydyn ni'n cael ein harwain a'n rhedeg gan lawryddion, ac aelodau ein tîm ar hyn o bryd yw Angharad Davies (nhw), Becky Johnson (hi/nhw), Jenny Mathiasson (hi/nhw), Jeremy Huw Williams (ef/fe), a Krystal Lowe (hi/ei).

Pam y sefydlwyd ni?

Sefydlwyd ni yn 2020 mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 sy'n effeithio'n anghymesur ar lawryddion, gan mai nhw sy'n ffurfio dros hanner y gweithlu celfyddydol yng Nghymru. Mae ein hadroddiad diweddar, *Ar Lwybr Adferiad?* yn dangos bod y sefyllfa'n parhau i fod yn llwm iawn yn achos llawer o lawryddion yng Nghymru, gyda'u hanner yn colli dros 80% o'u gwaith yn 2021. Gwelwn fod newid wedi bod yn ein gwaith, o ymateb i

argyfwng Covid-19 i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion systemig mae llawryddion yn eu hwynebu.

Pan sefydlwyd ni yn 2020, ein henw oedd Tasglu Llawryddion Cymru / Wales Freelance Taskforce, ac rydyn ni wedi parhau â'n gwaith hyd yn awr fel [Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales](#), diolch i gyfraniadau gan sefydliadau celfyddydol a chyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r cam nesaf hwn o'n prosiect wedi ei ariannu'n llawn hyd fis Hydref 2023.

Beth rydyn ni'n ein wneud?

Rydyn ni'n hybu ac yn ymateb i'r gymuned llawryddion celfyddydol yng Nghymru, yr ydyn ni'n rhan ohoni, gan sicrhau cysylltiad drwy drafodaethau, grwpiau ffocws, a'n digwyddiadau. Rydyn ni'n rhedeg ystod o brosiectau, yn darparu gwybodaeth ac adnoddau, yn cynnig cymorth cymheiriaid, ac yn gweithredu ar faterion eiriolaeth a pholisi y mae gwir angen amdanynt.



EIRIOLAETH

PROSIECTAU

ADNODDAU

CYMORTH

Mae ein gwaith hyd yma yn cynnwys:

- Cyfarfod dros 250 o lawryddion mewn grwpiau ffocws: gwranddo ar, ac ymateb i, anghenion a phryderon llawryddion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein gwaith.
- Creu gofodau lle gall llawryddion sgwrsio gyda'i gilydd a llunio syniadau newydd mewn cyfres o weithdai ar-lein, sef *Ein Dyfodol Llawrydd*.
- Lansio cynllun dros Gymry gyfan i fapio lleoliadau a sgiliau dros 350 o weithwyr llawrydd yn y celfyddydau, ar y cyd gydag [Atlas Economi](#)

Greadigol Cymru Clwstwr.

- Cynnig 18 o leoliadau datblygu proffesiynol.
- Comisiynu astudiaeth yn 2022, sef [Ar Lwybr Adferiad?](#), yn cyflwyno data ar y sefyllfa gyfredol ar gyfer llawryddion. Cafodd ein hastudiaeth yn 2021, [Ailfantoli ac Ailddychmygu](#), ddylanwad ar Gynllun Strategol National Theatre Wales, ac fe'i trafodwyd ar lefel Bwrdd mewn nifer fawr o sefydliadau, yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Hwyluso cyfres o Weithdai Uwchsgilio am ddim ar gyfer llawryddion gan lawryddion, a Sesiynau Lles am ddim ar gyfer llawryddion gyda Mind Casnewydd.
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar y sector llawrydd yng Nghymru, a'r Addewid i Lawryddion a'r Sector Cyhoeddus sydd ar y gweill.
- Datblygu partneriaethau strategol gyda sefydliadau ar draws y sector o fewn Cymru a ledled y DU.

Sut rydyn ni'n gwneud hyn?

Rydyn ni'n gweithredu o fewn strwythur nad yw'n hierarchaidd, lle mae cydgyfrifoldeb a hunan-fyfyrion yn rhan fawr o'r diwylliant. Rydyn ni i gyd yn cynhyrchu prosiectau i ennill mewnwelediad a hwyluso gyda llawryddion (yn aml ynghyd ag un aelod arall o'r tîm i gynnig cymorth); rydyn ni'n ffocysu ar sicrhau bod aelodau o'r tîm yn cael cefnogaeth i arwain ar y tasgau a roddwyd iddynt, a'u grymuso i gymryd penderfyniadau ar ran y tîm tra'n benthyg eu harbenigedd i eraill.

Rydyn ni'n cydweithio'n agos gyda'n partneriaid Celfyddydau a Busnes Cymru, Disability Arts Cymru, People Make it Work, a Race Council Cymru.

Beth sydd gennym ni ar y gweill?

Rhwng Awst 2022 a Hydref 2023 byddwn yn parhau â'r gwaith hanfodol

rydym wedi ei ddechrau, ac yn cyflenwi'r cynlluniau uchelgeisiol hyn sy'n adeiladu ar ein gwaith a'n cyrhaeddiad:

- Darparu Gweithdai Uwchsgilio ar gyfer llawryddion.
- Darparu Lleoliadau Datblygu Busnes am ddim ar gyfer llawryddion gyda Celfyddydau a Busnes Cymru.
- Cynnal Digwyddiadau Rhwydweithio yn rheolaidd ledled Cymru, gan adeiladu ar ein rhwydweithiau cyfredol a chryfhau cymunedau a rhannu adnoddau ledled Cymru drwy sesiynau rhwydweithio cyson yn lleol a digwyddiad rhwydweithio mwy o faint ar ffurf cynhadledd.
- Comisiynau Dyfodoliaeth Llawrydd: cynhyrchu cyfres o gomisiynau ar gyfer llawryddion (galwad agored) i greu prosiectau trawsnewidiol ar lawr gwlad, sy'n targedu heriau o fewn eu hardal neu faes.
- Datblygu'r haenau Mapio Llawryddion yn [Atlas Economi Greadigol Cymru Clwstwr](#) a chynyddu'r nifer o lawryddion sy'n cael eu mapio.
- Cynnal arolwg a chyhoeddi Adroddiad 2023 ar lawryddion ac draws y sector celfyddydol. Mae hyn yn adeiladu ar ein hadroddiadau o 2020 a 2022 i greu darlun tymor hir, dan arweiniad data, o effaith y pandemig ar lawryddion sy'n gweithio ym maes y celfyddydau yng Nghymru.
- Parhau â'n gwaith cynghori gyda chyrrff yn y diwydiant a'r llywodraeth, gan sicrhau bod llais y sector llawrydd yn cael ei glywed, a dadlau achos rhesymegol dros gymorth i lawryddion.

Seiliwyd y rhaglen hon o waith ar sylwadau llawryddion, fel y mynegwyd hwy yn ein grwpiau ffocws i lawryddion ac arolygon yn ystod 2021. Nodwn fod newid wedi bod yn ein gwaith, o ymateb i argyfwng Covid-19 i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion systemig mae llawryddion yn eu hwynebu.

Swydd-ddisgrifiad

Mae [Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales](#) yn chwilio am [Hwylusydd](#) i ymuno â'r gydweithfa ar drefniant llawrydd o fis Mai 2023 hyd fis Hydref 2023.

Am bwy rydyn ni'n chwilio?

Rydyn ni'n chwilio am bobl sy'n angerddol dros gefnogi llawryddion sy'n gweithio yn y celfyddydau, ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm deheuig.

Rydyn ni'n chwilio am bobl a chanddynt rai o'r nodweddion isod:

- Agwedd empathetig
- Y gallu i feddwl yn greadigol a strategol
- Sgiliau hwyluso a chydgyssylltu
- Y gallu i weithio i derfynau amser
- Etheg gwaith o safon uchel
- Hunangymhelliant

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod ein tîm yn cynrychioli ystod amrywiol o lawryddion, ac felly mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn clywed oddi wrth:

- Llawryddion sy'n fyddar a/neu'n anabl
- Llawryddion o'r Mwyafrif Byd-eang
- Rhai sy'n siarad Cymraeg yn hyderus a/neu rhai sy'n teimlo'n angerddol ynghylch yr iaith Gymraeg (gallant fod yn dysgu'r iaith)
- Llawryddion yng nghamau olaf eu gyrfa
- Rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

Mynediad

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth gyda'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â hello@cfw.wales neu ffonio/tecstio Jeremy ar 07771 822545.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau mewn unrhyw fformat; am ragor o fanylion, gweler yr adran 'Y Broses Ymgeisio' ar ddiwedd y pecyn hwn.

Gall unrhyw un sy'n gweithio gyda ni dderbyn cymorth o'n cronfa mynediad anabled bwrpasol.

Aelod o'r Tîm: **Hwylusydd**

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm dynamig sy'n caru'r celfyddydau i gefnogi gwaith y gydweithfa, cefnogi aelodau o'r tîm wrth ateb problemau ar y cyd, a chyfrannu o'ch arbenigedd chi eich hun yn ôl y galw. Lle bo modd, bydd holl aelodau'r tîm yn mynychu cyfarfodydd wythnosol, ac adeiladir cyfleoedd i werthuso i mewn i amserlen y prosiect. Mae gan bob aelod o'r tîm gyfrifoldeb i fod mewn cysylltiad â phartner a/neu gyllidwr.

*Dewch i helpu i gynllunio dyfodol **LICC/CFW**.*

Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithredu ar drefniant o-grant-i-grant, ond gobeithiwn symud ymlaen i fod yn sefydliad elusennol llawn a chynaliadwy. Byddwch chi, ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm, yn penderfynu ar y modd y bydd sefydliad fel hwn yn cael ei reoli, pa fath o waith y bydd yn ei wneud, sut bydd y tîm yn gweithio, ac unrhyw gwestiynau eraill fydd yn codi. Mae hwn yn gyfle i feddwl yn greadigol, bwydo i mewn i, a bod yn rhan o, gamau nesaf sefydliad arloesol. Gofynnir i chi ddweud wrthym os oes gennych unrhyw brofiad neu wybodaeth o wneud cais am statws elusennol neu strwythurau trefniadol.

Prif gyfrifoldebau: **Hwylusydd**

Comisiynau Dyfodoliaeth Llawrydd

Trwy weithio ar y cyd ag aelodau eraill o'r tîm, byddwch yn cefnogi aelodau creadigol y Comisiwn Dyfodoliaeth Llawrydd drwy gydol eu tymor comisiynu.

Gweithdai Uwchsgilio

Trwy weithio ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r tîm, byddwch yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a hwyluso Gweithdai Uwchsgilio.

Ffioedd

Caiff holl Aelodau'r Tîm yn LICC/CFW eu talu ar anfoneb:

£200 y dydd (8 awr)

£25 yr awr

Gofynion o ran Amser

Oriau craidd

Bydd angen i Aelodau Newydd o'r Tîm fod ar gael i fynychu cyfarfodydd wythnosol y tîm (1 awr yr wythnos/4 awr y mis), a gweithio oddeutu 2 awr yr wythnos ar fusnes cyffredinol. Mae hyn yn gyfanswm o 1.5 diwrnod y mis.

Oriau'r prosiect

Yn ogystal ag 1.5 o ddyddiau y mis o oriau craidd, treulir rhai dyddiau ychwanegol ar brosiectau penodol. Fodd bynnag, caiff y rhain eu dosrannu trwy gytundeb rhwng aelodau'r tîm a'u trafod yn ystod eu cyfarfodydd wythnosol.

Dyddiadau a Lleoliad

Dyddiad dechrau: 8 Mai 2023, neu mor agos â phosib at y dyddiad hwn.

Dyddiad gorffen: 31 Hydref 2023.

Dylai'r hyblygrwydd a gynigir o gwmpas y rôl hon sicrhau bod amser gennych i barhau ag ymrwymadau eraill. Mae holl aelodau'r tîm cyfredol yn gweithio fel llawryddion celfyddydol tra ar yr un pryd yn ysgwyddo ymrwymadau CFW/LICC.

Lleoliad: Peth gweithio o bell ynghyd â pheth gweithio wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar y prosiectau.

Y Broses Ymgeisio

Dylech anfon naill ai llythyr atodol byr (heb fod yn fwy na 300 gair) neu nodyn/fideo llais (dim mwy na 3 munud) yn manylu ar y modd rydych yn cwrdd â'r brîff a nodir uchod, i hello@cfw.wales.

Gofynnir i chi nodi 'Cais Aelod o'r Tîm' yn llinell bwnc eich neges ebost.

Dyddiad Cau: 10yb, Dydd Mawrth 11 Ebrill 2023

Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd beth yw statws eu cais erbyn 17 Ebrill 2023.

Cyfweliadau: wythnos yn dechrau 24 Ebrill

Cynhelir yr holl gyfweliadau ar Zoom. Bydd y panel yn cynnwys aelodau cyfredol o dîm LICC/CFW a chysylltai o'n sefydliad partner, People Make it Work, sef Lesley Rossiter (hi/ei).

Anfonir cwestiynau'r cyfweliad ddau ddiwrnod o flaen llaw at y rhai a gyfwelir; nid ydym, fodd bynnag, yn disgwyl iddynt baratoi unrhyw beth.

Ni fydd y cyfweliadau'n para mwy na 30 munud. Os gwahoddir chi i gyfweliad, byddwn yn gofyn i chi o flaen llaw a oes gennych unrhyw anghenion mynediad; os oes, byddwn yn trefnu ac yn talu am gymorth mynediad fel bod modd i chi fynychu'r cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â phawb gafodd gyfweliad i roi gwybod iddynt beth oedd y canlyniad erbyn dydd Llun 1 Mai 2023.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â hello@cfw.wales neu ffonio/tecstio Jeremy ar 07771 822545.

Os hoffech gael sgwrs ynghylch y rolau hyn, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, mae croeso i chi ebostio hello@cfw.wales a byddwn yn hapus i gael gair gyda chi.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyich!